



Parc Ynni
Adnewyddadwy
Hirfynydd
Renewable
Energy Park

Parc Ynni Adnewyddadwy Hirfynydd

Diwrnodau Gwybodaeth Cyhoeddus

Croeso, a diolch am ymuno â ni yn y digwyddiad gwybodaeth cyhoeddus hwn.

Mae EDF Renewables UK yn cynnig datblygu Parc Ynni Adnewyddadwy Hirfynydd, ger Creunant a Blaendulais.

Mae'r daflen hon yn rhoi gwybodaeth am y prosiect a bydd yn eich helpu i ddehongli'r byrddau sy'n cael eu harddangos.

Rydym yn eich gwahodd i:

- ddarllen y byrddau gwybodaeth
- siarad â thîm EDF Renewables UK
- gweld y model 3D rhyngweithiol sy'n dangos delweddiad o'r parc ynni
- llenwi'r ffurflen adborth
- darganfod sut i gadw mewn cysylltiad
- mynd â'r daflen hon gyda chi i'w rhannu gyda ffrindiau a theulu

Am ragor o wybodaeth ac i roi adborth:

www.edf-re.uk/our-sites/hirfynydd
hirfynydd@edf-re.uk
01639 500871

1

Dyma ein cynlluniau cychwynnol ar gyfer cynllun y parc ynni adnewyddadwy gyda syniad o leoliad y technolegau gwahanol.

Bydd y parc ynni yn cynnwys:

- hyd at saith tyrbîn gwynt gydag uchder blaen llafn mwyaf o 200m
- arae solar â phaneli solar mewn rhesi
- storio batris


Bydd capasiti gosodedig posibl y parc ynni hwn tua 100 MW.

Dylai'r parc ynni gynhyrchu digon o drydan gwyrdd ar gyfer dros 40,000 o gartrefi bob blwyddyn*

Er mwyn cael mynediad hawdd at yr holl seilwaith yn y parc ynni, bydd angen i ni adeiladu traciau mynediad. Bydd angen i ni hefyd gysylltu'r seilwaith ynni – y tyrbinau, y paneli solar, a'r batris – ag is-orsaf drydanol ar y safle, ac mae ein cynlluniau felly hefyd yn cynnwys is-orsaf drydanol ac adeilad rheoli, a cheblau pŵer tanddaearol.

Byddwn yn ceisio caniatâd cynllunio am gyfnod o 35 mlynedd.

Mae cynllun y parc ynni yn ddangosol ac yn destun diwygiadau o ganlyniad i adborth yr ymgynghoriad a chyngor arbenigol pellach.



*Defnydd cyfartalog cartrefi o ynni yn y DU 2021 - GOV.UK (www.gov.uk), ECUK 2021: Tablau data treuliant (OCU), tabl C9 - Domestig; defnydd cyfartalog (2020) o 3,954 kWh (tymheredd wedi'i gywiro). <https://www.gov.uk/government/statistics/energy-consumption-in-the-uk-2021>

*Bydd y Datblygiad arfaethedig (hyd at 50MW o wynt a hyd at 50MW o solar) yn cyfrannu at dargedau ynni adnewyddadwy a datgarboneiddio Cymru, fel a ganlyn:

- Amcan allbwn trydan gwynt blynyddol o 123,078 Awr Megawat gan ddefnyddio ffactor capasiti o 28.1%;
- Amcan allbwn trydan solar PV o 49,494 Awr Megawat gan ddefnyddio ffactor capasiti o 11.3%;
- Cyfanswm allbwn trydan o 172,572 Awr Megawat
- Cynhyrchu trydan glân sy'n cyfateb i ofynion domestig 40,000 o gartrefi bob blwyddyn*

*Crynodeb o Ystadegau Ynni'r DU (DUKES): ffynonellau ynni adnewyddadwy (https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1006822/DUKES_6.5.xls), Ffactorau llwyth ar gyfer cynhyrchu trydan adnewyddadwy (DUKES 6.5) - Ffactor llwyth gwynt ar y tir o 28.1% (2020) a ffactor llwyth solar PV o 11.3% (2020).

*Defnydd cyfartalog cartrefi o ynni yn y DU 2021 - GOV.UK (www.gov.uk), ECUK 2021: Tablau data treuliant (OCU), tabl C9 - Domestig; defnydd cyfartalog (2020) o 3,954 kWh (tymheredd wedi'i gywiro). <https://www.gov.uk/government/statistics/energy-consumption-in-the-uk-2021>

Tirwedd a gweledol

Ystyriaeth bwysig ar gyfer pob prosiect ynni yw sut y bydd y seilwaith yn edrych o ble mae pobl yn byw a'r lleoedd y mae pobl yn hoffi ymweld â nhw, a byddwn yn ceisio lleoli seilwaith y parc ynni mor ystyriol â phosibl. Yn ogystal â'r model 3-dimensiwn rhyngweithiol y gallwch ei weld yn yr arddangosfa hon, byddwn hefyd yn cynhyrchu ffotogyfosodiadau o'r safle o wahanol olygfannau. Dyma luniau 'cyn' ac 'ar ôl' sy'n dangos sut y gallai'r olygfa newid unwaith y bydd Parc Ynni Adnewyddadwy Hirfynydd wedi'i adeiladu.

Cynefinoedd ar gyfer rhywogaethau anifeiliaid

Mae gwahanol rywogaethau o anifeiliaid yn bresennol ac mae ein harolygon cychwynnol wedi dod o hyd i lygoden bengron y dŵr yn rhan orllewinol y safle a madfall gyffredin. Credwn fod gwahanol rannau o'r safle'n darparu cynefinoedd addas ar gyfer gwiberod a phathewod a bydd ein harolygon yn pennu a oes poblogaethau o'r anifeiliaid hyn yn bodoli yma. Rydym hefyd wedi cynnal arolwg am ystumod a madfallod dŵr cribog. Bydd canlyniadau'r arolwg hyn yn bwydo i'n cynlluniau.

Adar

Yn ystod ein gwaith arolygu, canfuwyd mai barcutiaid coch oedd yr ymwelwyr amlaf. Er bod boda'r mêl yn rhywogaeth fridio brin yn genedlaethol, mae'n hysbys bod sawl pâr yn bridio yng Nghwm Nedd a gwelwyd nhw'n hedfan yn ystod yr arolwg. Cofnodwyd rhywogaethau eraill, gan gynnwys y gwalch glas, hebog tramor, hebog yr ehedydd, boda tinwyn, a thylluan wen ar lefelau ysbeidiol ac isel. Gwyddom fod adar yn gallu cydfodoli ac yn gwneud hynny, a bydd canlyniadau'r arolwg yn bwydo i mewn i'n cynlluniau i sicrhau bod ein seilwaith wedi'i leoli'n ystyriol.

Gwella bioamrywiaeth

Nid ydym eisiau i'n datblygiad gael effaith negyddol ar blanhigion a rhywogaethau anifeiliaid a lle bo'n bosibl rydym am greu cynefinoedd gwell er mwyn i'r rhain ffynnu. Byddwn yn rhoi cynllun ar waith i sicrhau ein bod yn lleihau unrhyw effaith, boed hynny yn ystod y cyfnod adeiladu neu yn ystod oes weithredol y prosiect. Bydd ein gwaith arolygu a chynghor gan y rhai sy'n arbenigwyr ecoleg ac adareg yn ein helpu i gynllunio'n iawn.

Ein nod yw gwella bioamrywiaeth y safle yn gyffredinol. Byddwn yn cynhyrchu Cynllun Rheoli Cynefin a bydd ein cynlluniau i hybu bioamrywiaeth yn cael eu nodi'n glir yn y ddogfen hon.

Rydym eisiau clywed gennych chi:

- A oes gennych ddi-ddordeb mewn unrhyw agwedd benodol ar yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol?
- Dywedwch wrthym am unrhyw grwpiau lleol a hoffai wybod am ein cynlluniau ac a allai fod eisiau rhoi adborth.
- A allwch wneud unrhyw awgrymiadau ar sut y gellid defnyddio'r gronfa budd cymunedol?
- Ydych chi'n fusnes lleol? Gallwch ein gwneud yn ymwybodol o'ch gwasanaethau drwy gofrestru eich diddordeb yn www.edf.re.uk/working-with-communities/working-with-suppliers/

Siaradwch ag aelod o staff a rhowch eich adborth i ni ar hyn ac unrhyw gwestiynau eraill yn y ffurflen adborth.

4

Byddwn yn cynllunio'n ofalus sut mae cydrannau tyrbinau, paneli solar, a thraffig adeiladu'n teithio i'r safle ac yn cael mynediad iddo. Byddwn hefyd yn ystyried yn ofalus sut i reoli mynediad cyhoeddus yn ddiogel yn ystod y cyfnod adeiladu.



Trafnidiaeth – adeiladu a danfon nwyddau

Mae'n debygol y bydd cerbydau llwythi annormal sy'n cludo'r cydrannau tyrbinau mwyaf yn teithio o Borthladd Abertawe, ar hyd yr A483, yr M4, yr A465 a'r A4109 i'r de o'r Creunant ac yna ymlaen i'r safle drwy fynedfa a leolir ar yr A4109 i'r de o Creunant. Bydd cludo tyrbinau yn cael ei reoli mewn ymgynghoriad â'r heddlu.

Bydd yr holl draffig adeiladu a chludo arall hefyd yn defnyddio'r A4109 i gael mynediad i'r safle.

Ni fydd unrhyw draffig sy'n gysylltiedig ag adeiladu'r prosiect yn dod trwy bentrefi Creunant na Blaendulais, ni fydd chwaith unrhyw effaith ar Ffordd Rufeinig Sarn Helen

Yn ystod cyfnodau adeiladu prysur, a phan fydd cydrannau tyrbinau mawr yn cael eu dosbarthu, efallai y bydd rhywfaint o darfu ar ddefnyddwyr eraill y ffyrdd. Byddwn yn ceisio tarfu cyn lleied â phosibl drwy gyfyngu ar amseroedd dosbarthu a darparu cynghor clir ymlaen llaw i ddefnyddwyr ffyrdd lleol.

Unwaith y byddant ar y safle, bydd traffig yn defnyddio rhwydwaith o draciau newydd a phresennol. Bydd gan draciau uchafswm lled o 5m (lletach ar welyau), ac mae'n debygol y bydd ceblau sy'n cysylltu tyrbinau a'r adeilad rheoli yn cael eu gosod mewn ffosydd sy'n rhedeg ochr yn ochr â'r rhain.

Cytunir gyda'r awdurdodau priffyrdd ar Gynllun Rheoli Traffig sy'n cynnwys holl fanylion symudiadau cerbydau, amseriadau a maint cerbydau.

Hawliau Tramwy Cyhoeddus

Mae llwybr troed a llwybr ceffyl o fewn y safle gyda rhan o dir mynediad agored yn y dwyrain. Er y gallai mynediad i rannau o'r safle gael ei gyfyngu yn ystod y gwaith adeiladu am resymau diogelwch, unwaith y bydd y parc ynni wedi'i gwblhau, bydd mynediad cyhoeddus i'r ardal yn cael ei adfer.

Siaradwch ag aelod o staff a rhowch eich adborth i ni ar hyn ac unrhyw gwestiynau eraill yn y ffurflen adborth.

5



Asesir yr holl effeithiau hyn yn unol â deddfwriaeth, polisi a chanllawiau perthnasol a fydd yn cael eu hamlinellu yn yr adroddiad cwmpasu. Yn dilyn yr asesiadau hyn bydd cynllun y seilwaith ar y safle yn cael ei ddylunio mewn ffordd sy'n lleihau'r effeithiau cymaint â phosibl. Gellir rhoi mesurau ychwanegol ar waith hefyd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau sy'n weddill nad ydynt wedi'u dileu trwy ddylunio safle'n ofalus, er enghraifft enillion net bioamrywiaeth, lle cynigir mesurau i wella amodau ecolegol presennol.

Rydym eisiau clywed gennych chi:

- Siaradwch â ni os ydych yn byw gerllaw neu'n defnyddio'r safle at ddibenion hamdden, neu os oes gennych gwestiynau am unrhyw un o'r materion hyn.
- A oes unrhyw effeithiau nad ydym wedi ymdrin â nhw y mae gennych gwestiynau yn eu cylch?

Siaradwch ag aelod o staff a rhowch eich adborth i ni ar hyn ac unrhyw gwestiynau eraill yn y ffurflen adborth.

6



Cronfa budd cymunedol Parc Ynni Adnewyddadwy Hirfynydd fydd £5,000 y MW ar gyfer gwynt, a £400 y MW ar gyfer solar, a allai fod hyd at £270,000 bob blwyddyn y bydd y fferm wynt yn weithredol. Bydd y gymuned yn gweinyddu'r gronfa ac yn penderfynu pa achosion da lleol fydd yn elwa.

Mae EDF Renewables UK wedi ymrwmo i ddarparu cyfleoedd i'r gymuned gael cyfran yn Hirfynydd - gallai hyn fod trwy berchnogaeth leol neu ranberchnogaeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ac mae ganddi darged, erbyn 2030, y bydd 1 GW o'r holl brosiectau ynni newydd dan berchnogaeth leol. Byddwn yn cynnig hyd at 10% o'r prosiect cyfan.

Gall cymunedau gael cyngor annibynnol pellach gan Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru.

Mae llawer o fusnesau lleol eisoes yn cyflenwi'r diwydiant ynni adnewyddadwy yng Nghastell-nedd Port Talbot. Byddwn yn sicrhau bod Hirfynydd yn darparu contractau i gyflenwyr lleol drwy weithio gyda grwpiau busnes lleol a'r awdurdod lleol. Bydd adroddiad effaith economaidd-gymdeithasol yn cael ei gynhyrchu yn amlinellu gwerth y cyfleoedd tebygol.

Rydym hefyd yn bwriadu sefydlu grŵp cyswllt cymunedol fel fforwm ar gyfer rhannu gwybodaeth a syniadau da.

Rydym eisiau clywed gennych chi:

- A oes gennych unrhyw farn ar beth arall y gallai datblygiad fel hwn ei gynnig i'r ardal?
- Pa fanteision eraill yr hoffech eu gweld?
- A oes gennych syniadau ar sut y dylem ymgysylltu â busnesau lleol a'r gadwyn gyflenwi?
- Sut dylid rhedeg y gw'p cyswllt cymunedol a phwy ddylai gynrychioli'r gymuned arno?
- Ydych chi'n hoffi'r syniad o berchnogaeth leol neu ranberchnogaeth? A ydych yn meddwl ei bod yn well i unigolion gael y cyfle i fuddsoddi, neu a yw'n well i sefydliadau a chyrrff cyhoeddus lleol gael y cyfle buddsoddi?

Siaradwch ag aelod o staff a rhowch eich adborth i ni ar hyn ac unrhyw gwestiynau eraill yn y ffurflen adborth.

7



Amserlenni dangosol yw'r rhain ac wrth i ni ddatblygu'r prosiect bydd gennym syniad cliriach o'r union amserlen.

Rydym eisiau datblygu prosiect sy'n gwneud y gorau o'r trydan adnewyddadwy sy'n cael ei gynhyrchu a'i storio ar y safle, ac ar yr un pryd sicrhau cymaint o fanteision â phosibl i'r gymuned leol.

Byddwn yn gweithio gyda'r gymuned bob amser.

Rydym eisiau clywed gennych chi:

- Rhowch eich barn i ni ar yr hyn rydych wedi'i weld a'i glywed heddiw.
- Dywedwch wrthym beth yr hoffech ddysgu mwy amdano.
- Os credwch y gallwn gyflwyno'r wybodaeth yn wahanol, rhowch wybod i ni sut.
- Os oes grwpiau a chymdeithasau lleol a hoffai glywed gennym ni, rhowch wybod i ni.
- Os oes gennych unrhyw gwestiynau – gofynnwch!

Siaradwch ag aelod o staff a rhowch eich adborth i ni ar hyn ac unrhyw gwestiynau eraill yn y ffurflen adborth.



Mae EDF Renewables UK ac Ireland (www.edf-re.uk) yn is-gwmni i EDF Group, un o gwmnïau trydan carbon isel mwyaf y byd, ac mae ein buddsoddiad a'n harloesedd yn lleihau costau i ddefnyddwyr ac yn dod â buddion sylweddol i gymunedau.

Gyda'n portffolio gweithredu o 38 safle ynni adnewyddadwy gan gynnwys batri, gwynt ar y tir ac ar y môr (gyda'i gilydd yn fwy nag 1 GW) rydym yn darparu trydan fforddiadwy, carbon isel y mae mawr ei angen.

Mae gennym bortffolio sy'n ehangu gyda bron i 5 GW o brosiectau wrthi'n cael eu cynllunio a'u datblygu, gan gynnwys gwynt, batri a PV solar. Mae gennym 700 MW mewn adeiladu.